Nadroedd 'N' Ysgolion - Y Pandemig Arall

Snakes 'N' Ladders - The Other Pandemic

PANEL IEUENCTID YMGYNGHOROL

ADRODDIAD CYFLAWNI PROSIECT 2022/2023

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil County Borough Council

SMT
Supporting Safe and Confident Communities
Cefnogi Cymunedau Diogel a Hyderus
25 MLYNEDD • 1997–2022 • 25 YEARS

Voluntary Action Merthyr Tydfil
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

MTBWYF
Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil Borough Wide Youth Forum

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Pam ddewisoch chi'r enw 'Nadroedd ac Ysgolion – Y Pandemig Arall'?

Meddai **Lacy Phillips**, aelod o'n panel "Mae'r ystyr y tu ôl i enw prosiect Nadroedd ac Ysgolion yn weledol ac yn drosiadol. Mae'n dangos camau problemau iechyd meddwl - lan a lawr, rhwystrau a bylchau, dringo a chwympo."



Ychwanegodd **Rhian Davies** *'Y Pandemig Arall'* i'r teitl oherwydd dwedodd "ochr arall pandemig covid yw dirywiad cyflym yn iechyd meddwl ein pobl ifainc a'r her gynyddol o ddarparu gwasanaethau er mwyn gallu delio â'r broblem."



Safer Merthyr Tudful
The Voluntary Action Centre, 89-90 Stryd Fawr, Pontmorlais, Merthyr Tudful, CF47 8UH
01685 853999
E-bost: info@smt.org.uk
Cydlynydd y Prosiect: Alan Watkins, aw3@smt.org.uk

Cynhyrchwyd yr Adroddiad Mawrth 2024

CROESO...

Gan y Panel Ieuenctid Ymgynghorol

Rydym yn falch iawn o'r **'Prosiect 'Nadroedd ac Ysgolion - Y Pandemig Arall'** a'r cyfraniad a wnaeth dros 450 o'n cyfoedion ym Merthyr Tudful.

- **·Diolch** am rannu eich profiadau iechyd meddwl a llesiant gyda ni.
- **Mae'r hyn a ddywedoch wrthym** wedi ein helpu ni i ffurfio'r prosiect ac i sylwi ar y prif broblemau sy'n effeithio ar bobl ifainc ym Merthyr Tudful.
- **Ein camau nesaf** fydd canolbwyntio ein hamser o amgylch y prif faterion hyn a cheisio gosod rhai o'n hatebion i'r problemau hyn ar brawf er mwyn gweld os ydynt yn gwneud gwahaniaeth.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn teimlo bod y modd rydym yn cyflwyno'r adroddiad hwn fel 'gweledigaeth person ifanc' yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth, a gobeithiwn y byddwch yn ymuno â ni yn ein taith dros y pedair blynedd nesaf.





PWY YDYM NI?

Mae **Nadroedd ac Ysgolion - Y Pandemig Arall** (Snakes 'N' Ladders - The Other Pandemic yn Saesneg) yn anelu at gyrraedd pobl rhwng 11 a 25 ym Merthyr Tudful, beth bynnag eu cefndir neu brofiadau eu bywyd.

Rydym wedi ein harwain gan banel o bobl ifainc ac wedi ein cefnogi gan sefydliadau partner, er mwyn darganfod beth sy'n effeithio ar iechyd meddwl, llesiant a chydnerth pobl ifainc; ac i beilot brofi dulliau hyddysg i dargedu'r prif broblemau.

Rydym yn bobl ifainc ein hunain ac rydym am i eraill glywed ein lleisiau ac i eraill ddysgu o'n profiadau. Rydym eisiau gwella cydnerth drwy wella perthnasau a thrwy gynyddu ymddiriedaeth yn ein cyfoedion er mwyn gwell ddyfodol.

Wrth i ni weithio ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rydym wedi treulio amser yn ystod cyfnod gwrando'r prosiect, yn estyn llaw at blant a phobl ifainc rhwng 11 a 25 mlwydd oed yn ein cymunedau a'n hysgolion. Rydym wedi ffurfio Panel Ieuenctid Ymgynghorol, er mwyn arwain y prosiect ac i weithio gydag ystod o bartneriaid a sefydliadau sy'n ein cefnogi ni. Rydym wedi cynnal grwpiau ffocws, digwyddiadau llawn hwyl, holiaduron ac ymgynghoriadau 1:1. Rydym wedi casglu llawer o ddata a hoffem roi gwybod i chi amdano yn y tudalennau canlynol.

Yn fwy pwysig hoffem ddangos i chi beth yw'r prif faterion a sylwyd arnynt o ganlyniad i'n hymchwil a'r modd yr ydym yn bwriadu ymateb i'r materion hynny dros y pedair blynedd nesaf.



Ein Partneriaid

Cefnogir Nadroedd ac Ysgolion - Y Pandemig Arall gan y sefydliadau canlynol. Maent yn rhan o'r prosiect mewn sawl ffordd wahanol - mae rhai'n ariannu staff yn benodol i weithio ar y prosiect, mae eraill yn ein darparu gyda hyfforddiant a safle i ni gwrdd. Mae pob un ohonynt yn cynnig eu hamser a'u harbenigedd i gefnogi'r prosiect.

Nadroedd 'N' Ysgolion - Y Pandemig Arall

Snakes 'N' Ladders - The Other Pandemic

SMT
Supporting Safe and Confident Communities
Cefnogi Cymunedau Diogel a Hyderus
25 MLYNEDD • 1997–2022 • 25 YEARS

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

VOLUNTARY ACTION MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL MERTHYR TUDFUL

Mae ein Bwrdd Partneriaeth yn galluogi pobl ifainc i fod yn llysgenhadon iechyd meddwl, llesiant a chydnerth.

MTBWYF
Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil Borough Wide Youth Forum

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

Gallwch ddarganfod rhagor am ein sefydliadau partner ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Sut Cychwynnwyd y Prosiect



Gwnaeth cyn Eiriolwr Plant Awdurdod Lleol Merthyr Tudful, pobl ifainc y Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Merthyr Tudful a phartneriaid eraill gais gwreiddiol i **Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**.

Ysgrifennodd a chyflwynodd Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyflwyniad i fwrdd Meddwl Ymlaen y Loteri fel rhan o'u cais. Siaradon nhw am yr hyn roeddent am ei wneud a pham. Fe'u cefnogwyd gan fwrdd oedd yn bartneriaeth o sefydliadau a gytunodd i gefnogi'r gwaith drwy gydol y prosiect.

Pan ddyfarnodd Cronfa Gymunedol y Loteri £1.2 filiwn i ni ar gyfer y prosiect, cawsom wybod mai un o naw prosiect tebyg yn unig oeddem drwy Gymru gyfan!

Lansiwyd y prosiect gan bobl ifanc Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Merthyr Tudful drwy greu Panel Ymgynghorol Ieuenctid newydd, sydd wedi ymroi i amcanion Nadroedd ac Ysgolion - Y Pandemig Arall.

Meddai'r bobl ifanc, "Rydym am i lawer o bobl ifainc ymwneud â'r prosiect a rhannu eu profiadau. Hoffem i BOB UN o'n lleisiau gael eu clywed."

Cam 1: Y Panel

Roedd y bobl ifainc ar y Panel Ymgynghorol Ieuenctid yn gwybod mai blwyddyn gyntaf y prosiect oedd **'y Cyfnod Gwrando'**.

- ·Roeddem yn gwybod y byddai angen i ni siarad gyda chymaint o'n cyfoedion â phosib drwy gydol Merthyr Tudful.
- ·Roeddem yn gwybod bod problemau yn effeithio ar bobl ifainc mewn modd gwahanol ac yn unigol.
- ·Roeddem yn gwybod bod angen i ni arnodi'r prif broblemau os oeddem am helpu cymaint o bobl ifainc â phosib.


Recrwtiwyd rhagor o aelodau i'r panel, trefnwyd cyfarfodydd panel misol a phenderfynom ym mha fodd byddem yn estyn llaw at eraill. Penderfynom ar yr hyn roeddem am ei wneud a darparwyd hyfforddiant gan bartneriaid ein prosiect er mwyn ein rhoi ar ben ffordd. Roedd ein hyfforddiant yn cynnwys: sut i gynnal ymgynghoriad neu weithdy; sut i greu holiadur ar-lein; sut i roi cyflwyniad; a dysgu am faterion diogelu.

Yn ystod y Cyfnod Gwrando dangosodd 40 person ifanc ddiddordeb mewn ymuno â'r panel. Erbyn hyn mae gennym 33 o aelodau panel ymroddedig.



Pryd gyfarfuom

Roeddem yn cwrdd yn fisol ar gyfer cyfarfodydd panel ac ar ddyddiau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant.



Beth wnaethom ni

Ehangwyd ein dealltwriaeth o iechyd meddwl a llesiant a chychwynnwyd gweithgorau gennym er mwyn cwblhau tasgau'r prosiect.



Pwy Wrandawodd?

Gwrandawodd ein sefydliadau partner arnom mewn cyfarfodydd Bwrdd a gadeiriwyd gennym ni. Fe'n cymerwyd ni o ddifrif ganddynt ac fe'n cynorthwywyd ganddynt i greu ffyrdd o gyrraedd cymaint o bobl â phosib.

Cam 2: Gofyn a Gwrando



Sioe'r Redhouse

92 person ifanc | 13 sefydliad | 26 o staff (mewnol ac allanol)



Ym mis Rhagfyr fe wahoddom gyfoedion a sefydliadau i'n **digwyddiad mawr cyntaf**. Defnyddiom weithdai rhyngweithiol, llawn hwyl i gasglu gwybodaeth ynghylch sut mae ein cyfoedion yn teimlo am eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Integreiddiwyd y wybodaeth a gasglwyd fan hyn, a'r cwestiynau a oedd yn teimlo fel y rhai mwyaf defnyddiol, mewn i'r holl Gyfnod Gwrando.

Ymgynghoriadau

Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd gennym yn y Sioe, cynhaliwyd ymgynghoriadau gennym mewn ysgolion ac mewn sefydliadau cymunedol i bobl ifainc. Gofynnom gwestiynau agoriadol tebyg iawn i'w gilydd a chawsom ein synnu wrth i ni i weld yr un themâu yn codi dro ar ôl tro.





Holiadur Ar-lein a Sgyrsiau Un i Un


150 holiadur wedi eu cwblhau | 17 un i un

I glou, crëwyd holiadur ar-lein gennym a chynhaliwyd rhai sgyrsiau 1:1 gan ddefnyddio'r un cwestiynau. Unwaith eto roedd yr ymatebion, a rhai o'u profiadau bywyd, yr un peth neu'n debyg.









Dyma rai o'r ysgolion a sefydliadau fu'n rhan o'r ymgynghoriad. Efallai i chi ein gweld ni neu efallai eich bod wedi siarad gyda ni ac wedi bod yn rhan o'r prosiect!


Ysgolion


Ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis
Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa
Ysgol Gynradd Gwaunfarren
Ysgol Uwchradd Afon Taf
Ysgol Uwchradd Penydre
Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun

Cymuned

Grŵp Drama Adlib
Scowts Archwilio Glan yr Afon
Darpariaeth Ieuenctid Cartrefi Cwm Merthyr
Tŷ Coch Cymru
Clwb Merched a Bechgyn Treharris
Holiadur ar-lein a rannwyd drwy Ferthyr

Ceisiom gysylltu gyda chymaint o bobl ifainc â phosib, o gymaint o wahanol gefndiroedd a chymaint o wahanol brofiadau bywyd â phosib.





YR HYN A DDWEDODD RHAI POBL IFAINC:

Mae angen diddordeb mewn, a dealltwriaeth o bobl ifainc a'r hyn sy'n digwydd iddynt.

Mae'n rhaid i ni ddelio gyda bwlio, yn arbennig yn yr ysgol ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae bwlio ym mhobman yn yr ysgol.

Mae angen rhagor o gefnogaeth yn yr ysgol.

Rwy wedi cael digon o ysgol ac o weithgareddau gofal.

Rwy'n teimlo'n hapus ond ychydig yn drist y rhan fwyaf o ddyddiau oherwydd ysgol a cholled o fewn y teulu.

Mae angen UN lle arnom lle gallwn ddod o hyd i'r holl gymorth sydd ar gael i ni.

Rhaid ein bod yn gallu derbyn cymorth yn gyflym heb orfod aros wythnosau i gael ein cyfeirio.

Mae angen rhagor o bobl arnom i allu siarad â nhw.

Rhaid i bobl wrando arnom a'n credu ni.


Rhaid i ni wybod gyda phwy allwn siarad ac ym mha le gallwn ddod o hyd iddynt.

Mae angen help arnom pan rydym yn teimlo dan straen.

Mae angen cymorth arnom er mwyn dod o hyd i gymorth.



Cam 3: Y Prif Faterion



Ar ddiwedd y Cyfnod Gwrando, aeth y Panel Ieuenctid Ymgynghorol ati i werthuso pob barn, stori a chyfraniad a gasglwyd. Gwelsom fod nifer fawr iawn o bethau'n cael effaith ar iechyd meddwl a llesiant y bobl ifainc ym Merthyr Tudful.

Serch hynny, gwelsom hefyd fod rhai materion yn cael effaith amlwg iawn:



Diffyg perthnasau ac ymddiriedaeth rhwng pobl ifainc a phobl broffesiynol ym mhob lleoliad.
Achosai hyn i'r bobl ifainc beidio â chwilio am gymorth pan oedd arnynt ei angen, yn arbennig o amgylch materion megis perthnasau gwael a bwlio. Maent yn teimlo "beth yw'r pwynt?" "Bydd neb yn fy nghredu i ta beth," "a fyddan nhw'n rhannu fy stori fel bod pawb yn gwybod amdani?", "sain 'nabod y person, mae'n anodd siarad gyda nhw am fy mhroblemau."



Y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn rhan o'n bywydau ni i gyd ond mae'n effeithio rhai o'n perthnasau ni mewn modd gwael o ganlyniad i seiberfwlio a thrwy ddangos hunanolwg a bywyd afrealistig.



Diffyg gwybodaeth ynghylch sut i gael gafael ar gymorth sydd ar gael yn barod. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl ifainc yn gwybod i ble ddylent fynd er mwyn derbyn cymorth a beth fyddai'n digwydd petai nhw'n mynd.
Maent eisiau gwybod beth yw'r broses a phwy yw'r bobl o flaen llaw a hefyd beth fydd yn digwydd i'w gwybodaeth bersonol pan fyddant yn ei roi i eraill.



Nid yw pobl ifainc yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt. Maent yn pryderu na fydd pobl yn eu credu ac o ganlyniad nid ydynt wastad yn siarad dros eu hunain. Maent hefyd yn pryderu nad yw'n bosib siarad â rhywun pan fod wir angen iddynt wneud hynny.



Os hoffech weld rhagor o wybodaeth ynghylch y data hwn, cysylltwch â chydlynydd y prosiect os gwelwch yn dda.

Cam 4: Blaenoriaeth au'r Prosiect

Er mwyn ymateb i'r 4 prif bwynt crëwyd 4 Blaenoriaeth Prosiect. Y blaenoriaethau hyn bydd canolbwynt 'Cyfnod Cyflawni' y prosiect a byddwn yn peilot brofi atebion er mwyn ceisio gwella'r materion hyn ar draws Merthyr Tudful.

Blaenoriaeth

1

Perthnasau ac Ymddiriedaeth

Gwella perthnasau ac ymddiriedaeth rhwng pobl ifanc a phobl broffesiynol mewn addysg a lleoliadau o fewn y gymuned.

Gweithio gydag ysgolion, sefydliadau eraill a phobl ifainc er mwyn datblygu adnoddau sy'n ymateb i berthnasau gwael. Cynnwys yr adnoddau hyn fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

2

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Hyrwyddo defnydd cadarnhaol o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cynnal perthnasau da.

Dangos sut i adnabod seiberfwlio a beth i'w wneud amdano.

3

Gwybodaeth

Datblygu a darparu gwell ffyrdd i bobl ifainc gael gafael ar wybodaeth ynghylch y cymorth sydd ar gael iddynt. Cynyddu dealltwriaeth o'r llwybrau hynny a'r bobl sy'n ymwneud â'r maes fel bod gan bobl ifainc mwy o hyder i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd arnynt eu hangen.

4

Gwrando

Peilot brofi dull hawdd mynd ato, heb i chi orfod cael eich cyfeirio er mwyn cael gafael ar wasanaeth llesiant sy'n bodoli'n barod fel bod Pobl Ifainc yn gallu chwilio am gymorth a chael eu clywed pan fod angen hynny arnynt.

Parhau gyda'r Panel Ieuenctid Ymgynghorol drwy gydol oes y prosiect er mwyn sicrhau bod y prosiect dan arweinyddiaeth lleisiau Pobl Ifainc.

'Nadroedd ac Ysgolion... cynyddu ymddiriedaeth ar gyfer gwell dyfodol.

Cam 5: Ein Peilot-Atebion

Blwyddyn 2

Hydref ’23 hyd Ragfyr ‘24

- Bydd y Panel Ieuenctid Ymgynghorol yn lansio’r **Cyfnod Cyflawni** i ysgolion a sefydliadau drwy drefnu digwyddiad lansio.
- Datblygu adnoddau electronig er mwyn ymateb i faterion perthnasau ac ymddiriedaeth.

Blwyddyn 3

Hydref ’24 hyd Fedi ‘25

- Gweithio gyda phartneriaid, ysgolion a sefydliadau er mwyn datblygu deunyddiau sy’n trafod gwella perthnasau sydd wedi eu heffeithio gan fwlio a’r cyfryngau cymdeithasol.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn peilot brofi dull ‘mynediad agored’ i raglennu llesiant a chydnerth (y tu fas i wersi, ni fydd angen cael eich cyfeirio atynt)

Blwyddyn 4

Hydref ’25 hyd Fedi ‘26

- Sefydlu dull cynaliadwy a pharhaol i sicrhau bod pob un o’r adnoddau a ddatblygwyd ar gael i bobl ifainc.
- O bosib rhoi’r adnoddau hyn dan ofal pobl ifainc.

Blwyddyn 5

Hydref ’26 hyd Orffennaf ‘27

- Yr ail flwyddyn o ymateb i faterion perthnasau ac ymddiriedaeth gyda disgyblion blwyddyn 9. Gwerthuso’r ateb.
- Gwerthuso’r prosiect yn ei gyfanrwydd ac adrodd arno mewn partneriaeth â Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru.

Rydym yn ddiolchgar i **Gronfa Meddwl Gwell y Loteri Genedlaethol** am roi pum mlynedd i ni ar gyfer y prosiect hwn. Mae cyfnod mor hir o fuddsoddiad yn dangos ymroddiad y Gronfa Gymunedol nid yn unig i’r prosiect a’r newidiadau rydym yn ceisio eu cyflawni ond i holl bobl ifainc Merthyr Tudful.

Mae’r Panel Ieuenctid Ymgynghorol wedi cymryd yr awenau yn y gwaith o ddylunio’r peilot-atebion a byddant yn gyfan gwbl ran o’r holl beth drwy gydol oes y prosiect. Mae partneriaid ein prosiect yn cefnogi’r peilot-atebion a byddant yn ein cefnogi ni wrth i ni eu rhoi ar brawf.

Mae ein peilot-atebion wedi eu hychwanegu at linell amser hyblyg sy’n parhau hyd at Orffennaf 2027. Bydd y prosiect yn parhau i wrando ar bobl ifainc ac i werthuso wrth i ni fynd yn ein blaenau, bydd newidiadau yn digwydd pan fod angen.



Cam 6: Monitro Ein Llwyddiant



Mae gennym gyfle i wneud gwir wahaniaeth a gwahaniaeth barhaol i bobl ifainc Merthyr Tudful ac, o ganlyniad, rydym wedi gosod systemau fydd yn gwerthuso'n barhaol yr hyn rydym yn ei wneud.

Bydd y **Panel Ieuenctid Ymgynghorol** a'r **Bwrdd Partneriaeth** yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd a byddwn yn parhau i wrando ar yr holl bobl ifainc drwy gydol y Fwrdeistref.

Y sefydliad sy'n bartner gwerthuso i ni yw **'Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru'** ym Mhrifysgol De Cymru. Mae ganddynt lawer iawn o brofiad yn gwerthuso prosiectau sy'n debyg i'n prosiect ni ac rydym yn gyffrous i dderbyn eu cymorth.

University of South Wales Prifysgol De Cymru

wihsc ESTABLISHED 1995 • SEFYDLWYD 1995

Gan y Panel Ieuenctid Ymgynghorol

GAIR I GLOU...

Diolch am ddarllen ein hadroddiad ynghylch blwyddyn gyntaf ein prosiect Nadroedd ac Ysgolion - Y Pandemig Arall, ein darganfyddiadau a'r hyn byddwn yn ei wneud er mwyn ceisio gwella iechyd meddwl a llesiant ein cyfoedion ym Merthyr Tudful.

- **Os ydych chi rhwng 11 a 25 mlwydd** oed ac os ydych eisiau bod yn rhan o'r prosiect, cysylltwch ag unrhyw un o'r bobl sydd wedi eu rhestri isod.

- **Os ydych chi'n perthyn i sefydliad** sy'n gweithio ym Merthyr Tudful ac os hoffech chi archwilio ffyrdd o gyd-weithio, cysylltwch â Chydlynydd y Prosiect drwy'r sawl sydd wedi eu rhestri isod.

Swyddog Ymgysylltu: Jess Powell, jp@smt.org.uk
Swyddog Ymgysylltu: Deb Davies, dd@smt.org.uk
Cydlynydd Prosiect: Jan Watkins, jw3@smt.org.uk



Y PANEL IEUENCTID YMGYNGHOROL



Beth mae'n golygu i fod yn rhan o' Nadroedd ac Ysgolion - Y Pandemig Arall' a Pham Ymunon Ni.

Katrina

Ymunais â'r prosiect hwn gyda'r bwriad o wella iechyd meddwl ac rwy'n hapus iawn i fod yn rhan ohono.

Megan

Ymunais â Nadroedd ac Ysgolion oherwydd rwy'n berson ifanc sy'n dioddef gyda symptomau gorbryder. Roeddwn i eisiau rhoi cynnig ar rywbeth newydd, eisiau gwthio fy ffiniau, gyda chefnogaeth fy chwaer yn fy ymyl mewn cyfarfodydd.



Abby

Rwy'n credu bod iechyd meddwl yn bwysig iawn ac mae bod yn rhan o Nadroedd ac Ysgolion yn golygu fy mod i'n gallu bod yn rhan o'u gorchwyl i hybu a chynorthwyo gyda llesiant ein hieuenctid.




Abdullah

Pam ymuno gyda Nadroedd ac Ysgolion? Wel, pam lai? Pam na fyddwn i eisiau bod yn rhan o brosiect sy'n ceisio cynorthwyo pobl ifainc, pobl fel fi fy hun?

Luke

Mae bod yn aelod o Nadroedd ac Ysgolion yn teimlo fel bod yn rhan o ail deulu. Rwy'n ofnadwy o falch o fod yn rhan o'r grŵp arbennig hwn wrth i ni gydweithio er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ifainc.



Lacy

Dro ar ôl tro, nid yw'r gwasanaethau sydd ar gael wedi gallu ymateb i fy anghenion, ond mae hwn wedi fy ysgogi i wella'r gwasanaethau sydd ar gael. Dan faner y prosiect Nadroedd ac Ysgolion, byddwn yn ail-ffurfio'r hyn sy'n bodoli'n barod i ymateb i anghenion y sawl sydd arnynt angen y gwasanaethau drwy weithio gyda phobl ifainc sy'n meddwl yn yr un ffordd ac sy'n frwdfrydig dros newid a thros ein hiechyd meddwl a'n llesiant.



Katy

Katy ydw i, Maer Ieuenctid Merthyr Tudful. Rwy' wedi bod yn rhan o'r prosiect ers y cychwyn. Rwy'n credu bod iechyd meddwl a llesiant yn arbennig o bwysig.



Samee

Rwy' wedi bod yn rhan o'r prosiect ers 'y cychwyn cyntaf'. Rwy' wedi caru gweld y ffordd y mae wedi tyfu a datblygu dros y flwyddyn; y ffordd y mae wedi rhoi gobaith a chefnogaeth i'r holl bobl ifainc sy'n rhan ohono; a'r ffordd y cafodd ei dderbyn gan bob un person sydd wedi ymwneud a'r prosiect. Mae'r prosiect hwn yn golygu'r byd i mi ac rwy'n gobeithio ei fod yn golygu llawn cymaint i bawb arall.



Jay

Ymunais i gyda Nadroedd acA Ysgolion yn ddiweddarA oherwydd fy nghariad. IA ddechrau roeddwn ynA amheus ond tyfais i garu ac iA fwynhau'r cyfarfodydd.A Ysgogodd Nadroedd acA Ysgolion fi i dyfu allan o fyA nghragen ac i gyfarfod poblA newydd.A

Morgan

Mae bod yn rhan o'r PanelA leuenctid Ymgynghorol ynA golygu ein bod ni'n galluA ymdrechu i WNEUDA gwahaniaeth yn ein cymunedA ond hefyd BOD y newidA hwnnw ein hunain. GallwnA ddechrau nawr ar gyferA dyfodol pob person ifanc.A



Nerys

Ymunais i gydaA Nadroedd acA Ysgolion oherwyddA roeddwn yn deall yA pethau roedd poblA ifainc yn euA hwynebu yn yA gymuned acA roeddwn eisiau gwneudA gwahaniaeth.A



Lo

Ymunais â'r panelA oherwydd rwy'nA diddori'n fawr mewnA cefnogi pobl ifaincA gyda'u hiechydA meddwl ac mewnA cynorthwyo eraill i ddeall iechyd meddwlA yn ei gyfanrwydd.A

Cai

Ymunais â Nadroedd acA Ysgolion yn ddiweddarA oherwydd roedd fy ffrindA gorau'n ymuno. Ers hynnyA rwy' wedi mwynhau dod iA bob cyfarfod.A



Dylan

Fi yw Dirwprwy FaerA Ieuenctid MerthyrA Tudful. Rwy' wedi bod ynA aelod o Nadroedd acA Ysgolion am ddwyA flynedd ac mae'n bwysigA i mi fy mod i'n helpu poblA ifainc gyda'u hiechydA meddwl a'u llesiant.A

Elliot

Mae Nadroedd ac YsgolionA Yn cynorthwyo'r sawl sydd mewnA angenA
Neu'r sawl sydd eisiau helpu.A
"Pam" gofynnwch chi?A
Mae'r prosiect hwn yn bwysig iA lawer.A
Mae'n ysgogi pobl ifainc.A
Mae'n wych ac yn hwyl i'r sawlA
Mae'n cynorthwyo i dyfu allan o'nA cregynA
Mae'n hybu iechyd meddwl.A
Mae'n cynorthwyo'r sawl syddA arnynt angen ragor o hyder,A ffrindiau, cefnogaethA
A sgiliau hanfodol eraillA



Jasper

Mae bod yn rhan oA Nadroedd acA Ysgolion ynA gymorth mawr i miA ac i'r gymuned.A Ymunais oherwyddA roeddwn i eisiauA helpu pobl.



Jacob

Mae iechyd meddwl pobl ifaincA Merthyr Tudful mor bwysig.A Mewn byd o ansicrwydd mae'nA gysur gwybod fy mod i'n rhan o'A brosiect sy'n anelu at helpu aA chyfrannu'n gadarnhaol at fyA nghymuned.A



Sparrow

Rwy'n awyddus i fod yn artistA tatŵ. Rwy' wedi byw trwy fyA ymdrechion a nawr rwyf amA helpu i wella bywydau eraill gydaA fy ngwybodaeth ar wahanolA bynciau a thrwy fy ngwaith gydaA Nadroedd ac Ysgolion.A



Carly and Shannon

Rydym wedi bod yn rhan oA Nadroedd ac Ysgolion amA ychydig dros flwyddyn acA rydym wir wedi mwynhauA bod yn rhan o'r grŵpA anhygoel hwn a chyfarfodA pobl newydd.A



Ysa

Ymunais âA Nadroedd acA Ysgolion oherwyddA rydw i eisiau helpuA pobl ifainc i deimloA nad ydynt ar euA pennau eu hunain gyda'u teimladau,A i'w cefnogi ar euA taith iechydA meddwl.A

Y BWRDD PARTNERIAETH



Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol…

…mae'n dyfarnu nawdd o Gronfa'r Loteri i brosiectau sy'n grymuso cymdeithas ac yn gwella bywydau. Maent wedi dyfarnu £1.2 filiwn i ni dros bum mlynedd er mwyn i ni fuddsoddi mewn iechyd meddwl, llesiant a chydnerth pobl ifainc rhwng 11-25 mlwydd oed ym Merthyr Tudful.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful...

….yn ei rôl fel arweinydd y prosiect, mae'r Cyngor yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau er mwyn sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol y gallu i gael gafael ar wasanaethau sy'n ymateb i'w hanghenion

Safer Merthyr Tudful…

… mae'n darparu gwasanaethau a arweinir gan anghenion sy'n cynyddu hyder ac yn galluogi cymunedau i deimlo'n fwy diogel. Fel sefydliad partner, maent yn cyfrannu at gynnal tîm Nadroedd ac Ysgolion 'sy'n cynghori ac yn cefnogi'r Panel Ieuenctid Ymgynghorol. Trwy'r prosiect mae'r Uwch Dîm Rheoli'n gobeithio y gall helpu i lywio'r broses o newid system er mwyn gwella iechyd meddwl a lles pobl ifanc yn gadarnhaol nawr ac yn y dyfodol.

Barnardo's Cymru...

…Mae Barnardo's Cymru wedi bod yn cefnogi pobl ifainc a theuluoedd ers dros 150 o flynyddoedd. Ar draws y Fwrdeistref, mae Barnardo's yn darparu cefnogaeth Blynyddoedd Cynnar, Gwaith Allweddol Tîm o Amgylch y Teulu, Gofalwyr Ifainc a Gwasanaethau sy'n gofalu am Blant sydd wedi eu Cam-drin yn Rhywiol. Fel partner i Nadroedd ac Ysgolion, mae Barnardo's yn cyflogi Gweithiwr Ymgysylltu o fewn Tîm y Prosiect.



Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Merthyr Tudful…

…mae'n sicrhau fod gan bobl ifainc Merthyr Tudful y cyfle i gael llais ac i ddylanwadu a ffurfio'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful…

…mae'n rhan o Gefnogi Trydydd Sector Cymru sy'n rhwydwaith o sefydliadau sy'n cefnogi'r trydydd sector. Eu bwriad yw galluogi'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ar draws Cymru i gyfrannu'n llwyr i lesiant unigol a'r gymuned nawr ac yn y dyfodol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg...

…sy'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i'r 450,000 o bobl sy'n byw mewn tair Bwrdeistref Sirol: Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru…

…maent yn llywio gwasanaethau iechyd a gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddant yn ein helpu i gofnodi a gwerthuso'n prosiect.

Sefydliad Banc Lloyds ar gyfer Cymru a Lloegr

…mae'n bartner i elusenau bychain a lleol, pobl a chymunedau sy'n gweithio tuag at gymdeithas mwy cyfiawn a thrugarog. Rydym yn bartneriaid sydd ag amcanion tebyg. Byddwn yn cydweithio ar wahanol achlysuron drwy gydol y prosiect.

Ymddiriedolaeth Elusennol Canmlwyddiant Stephens a George…

….mae'n cefnogi pobl ifanc gyda'u syniadau nhw eu hunain i adael gwaddol yn eu cymunedau.
Roeddent yn rhan o'n bwrdd partneriaeth yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect a hoffem ddiolch iddynt am gefnogi datblygiad y cais am gyllid a chynllun cychwynnol y prosiect.